**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**

Cofnodion o gyfarfod rhithwir y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd Dydd Iau, 17 Mawrth 2022 am 3.00 pm

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Cynllunio a Datblygu Aelodau oedd yn bresennol: -**

Y Cynghorydd S Rees (Cadeirydd)

Y Cynghorydd R Williams
Y Cynghorydd D Grehan
Y Cynghorydd P Jarman
Y Cynghorydd W Lewis
Y Cynghorydd S Powderhill
Y Cynghorydd D Williams

**Swyddogion oedd yn bresennol: -**

Mr J Bailey, Pennaeth Cynllunio
Mr S Humphreys, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr C Jones, Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi
Mr A Rees, Uwch Beiriannydd

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol: -**

Y Cynghorydd R Bevan
Y Cynghorydd R Turner

**226 CROESO AC YMDDIHEURIADAU**

Daeth ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol J Barton, G Hughes, W Owen a J Williams.

**227 DATGAN BUDDIANT**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau mewn perthynas â'r Agenda.

**228 DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU**

**PENDERFYNWYD** nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu ar faterion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

**229 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

**PENDERFYNWYD** nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion nhw.

**230 COFNODION 10.02.22**

**PENDERFYNWYD** cadarnhau'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 10.02.22 yn rhai cywir.

**231 NEWID I DREFN YR AGENDA**

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r agenda yn cael ei ystyried mewn trefn wahanol yn unol â'r manylion yn y cofnodion isod.

**232 CAIS RHIF: 21/1237**

**Newid defnydd o westy, siop cludfwyd a bar/bwyty i gartref gofal preswyl C2, gyda gwaith tirlunio a mynedfa gysylltiedig. (Derbyniwyd Adroddiad Ansawdd Aer ar 10 Ionawr 2022) DIAMOND JUBILEE HOTEL, HEOL Y DWYRAIN, TYLORSTOWN, CF43 3HE.**

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Stephen Waldron (Asiant). Cafodd bum munud i gyflwyno'r cais i'r Aelodau.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol y cais i'r Pwyllgor ac, yn dilyn trafodaeth hir, gwrthododd yr Aelodau y cais, yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, oherwydd gorddatblygu, anaddasrwydd defnydd arfaethedig yr adeilad, diffyg lleoedd parcio a phryderon ynghylch diogelwch priffyrdd a diffyg amwynder. O ganlyniad i hynny, cai'r mater ei ohirio tan y cyfarfod priodol nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu fel bod modd derbyn adroddiad gan y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, a gaiff ei lunio drwy ymgynghori â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol yn ôl yr angen. Bydd yr adroddiad yn tynnu sylw at y cryfderau a'r gwendidau posibl sydd ynghlwm â gwneud penderfyniad yn groes i argymhelliad swyddog, neu unrhyw reswm arfaethedig neu reswm cynllunio dros wneud penderfyniad o'r fath. Caiff yr adroddiad yma ei ystyried cyn dod i benderfyniad ar y mater.

**233 CAIS RHIF: 20/0932**

**Cais i gadw ac ymestyn yr adeilad gweithdy presennol, estyniad ôl-weithredol i'r adeilad swyddfa presennol, adleoli ardal golchi cerbydau dan do, pympiau tanwydd a thanciau dŵr, estyniad i'r maes parcio presennol i staff/cwsmeriaid, porthdy newydd, codi ffens acwstig a gwaith cysylltiedig (derbyniwyd Strategaeth Ddraenio ddiwygiedig ar 07/10/21, derbyniwyd Cynllun Lleoliad Safle diwygiedig, Cynllun Gosodiad y Safle Arfaethedig, manylion ffens acwstig ac Asesiad Effaith Sŵn ar 20/12/21). UNED 16 EARTHMOVERS HOUSE, PARC BUSNES LLANTRISANT, LLANTRISANT, PONT-Y-CLUN, CF72 8LF.**

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, yn amodol ar newid Amod 3 i:

> "Fydd dim gwaith datblygu pellach yn cael ei gynnal ar y safle, ar wahân i waith sydd ei angen mewn cysylltiad ag Amod 14, hyd nes y bydd manylion llawn y mesurau lliniaru/gwella bioamrywiaeth arfaethedig sydd wedi'u nodi yn yr Asesiad Ecolegol Rhagarweiniol (Soltys Brewster Ecology, Awst 2020) wedi'u cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo ganddo yn ysgrifenedig. Bydd y mesurau lliniaru/gwella bioamrywiaeth yn cynnwys, heb fod yn gyfyngedig i:
>
> i. Diogelu/rheoli coed a gwrychoedd,
> ii. Mesurau gwella nythod adar,
> iii. Dylunio goleuadau safle i leihau lefelau goleuadau ar hyd ffiniau cynefinoedd wedi'u cadw, a
> iv. Cynllun ôl-ofal tymor hir.
>
> Bydd y mesurau lliniaru/gwella sydd i'w cymeradwyo yn cael eu rhoi ar waith ar y safle cyn pen 6 mis ar ôl cael eu cymeradwyo; a byddan nhw'n parhau i fod ar waith ar ôl hynny.
>
> Rheswm: Er mwyn ecoleg a gwarchod rhywogaethau anifeiliaid yn unol â Pholisi AW8 Cynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf."

**234 CAIS RHIF: 20/1307**

**Byngalo ar wahân (Amlinellol) - Derbyniwyd Asesiad Risg Cloddio Glo ar 18/03/2021. TIR Y TU ÔL I SŴN Y FRO, HEOL GELLIFEDI, BRYNNA**

Siaradodd yr Aelod Lleol, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R. Turner, nad yw'n aelod o'r Pwyllgor, am y cais gan fynegi ei wrthwynebiad i'r datblygiad arfaethedig.

Cyflwynodd Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

**235 CAIS RHIF: 21/1601**

**Bwriad i ddymchwel yr adeiladau ysgol presennol ac ailddatblygu'r safle i ddarparu datblygiad preswyl o 18 o anheddau a gwaith cysylltiedig. (Derbyniwyd Gwerthusiad Ecolegol Rhagarweiniol (PEA) wedi'i ddiweddaru; wynebau diwygiedig ar gyfer lleiniau 1, 2 ac 17 gan gynnwys cwpanau ar gyfer gwenoliaid y bondo; a Chynllun Ymchwilio Ysgrifenedig ar gyfer cofnodi adeiladau hanesyddol, ar 17 Ionawr 2022. Derbyniwyd cynllun gosodiad safle diwygiedig, i ledu llwybr troed a newid graddiant, ar 15 Chwefror 2022) TIR YN HEN YSGOL GYNRADD GYMRAEG TONYREFAIL, STRYD YR YSGOL, TONYREFAIL, PORTH, CF39 8LE**

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu, yn amodol ar:

- Cwblhau cytundeb Adran 106 i sicrhau bod yr anheddau'n cael eu sefydlu a'u cynnal fel unedau fforddiadwy, at y diben parhaus o ddiwallu anghenion tai lleol a nodwyd, ond ni roddodd Aelodau bwerau dirprwyedig i swyddogion i wrthod y cais os na fydd y cytundeb Adran 106 yn cael ei lofnodi cyn pen 6 mis o benderfyniad y Pwyllgor Cynllunio;

- Newid Amod 3 i eithrio dymchwel adeiladau presennol y safle o ystyr dechrau datblygu; ac

- Ychwanegu nodyn gwybodaeth at y caniatâd cynllunio mewn perthynas â darparu cyfleusterau gwefru cerbydau trydan

**236 CAIS RHIF: 21/1613**

**Datblygu cynllun solar a seilwaith cysylltiedig. (Derbyniwyd y Datganiad Drilio Ceblau ar 20 Ionawr 2022) TIR AR FFERM RHIWFELIN FACH, FFORDD LLANTRISANT, YNYSMAERDY, LLANTRISANT, PONT-Y-CLUN, CF72 8LQ.**

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol y cais uchod i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu.

**237 CAIS RHIF: 22/0088**

**Adeiladu garej sengl. TIR GER 16 TERAS BRYNHEULOG, TYLORSTOWN, GLYNRHEDYNOG.**

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol y cais uchod i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu.

**238 CAIS RHIF: 22/0004**

**Annedd ar wahân sydd â 4 ystafell wely. TIR Y TU ÔL I 1 HEOL LLWYNFEN, PONT-Y-CLUN, CF72 0TW.**

Rhoddodd Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio wybod bod y cais wedi'i dynnu'n ôl.

**239 GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU**

**WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

**PENDERFYNODD** yr Aelodau dderbyn adroddiad Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio mewn perthynas â Phenderfyniadau Apeliadau Cynllunio a Gorfodi a oedd wedi dod i law, Ceisiadau wedi'u Cymeradwyo a'u Gwrthod gyda rhesymau trwy'r drefn Penderfyniadau wedi'u Dirprwyo, Crynodeb o'r Achosion Gorfodi a Phenderfyniadau Gorfodi trwy'r drefn Ddirprwyo ar gyfer y cyfnod 28/02/2022 tan 04/03/2022.

**Daeth y cyfarfod i ben am 4.29 pm**

**Y Cynghorydd S Rees**
**Cadeirydd.**